



ECAD6006C

TACHWEDD 14 2019

JENI PRICE



Cyfri yn Gymraeg ...



Heddiw, byddwn ni'n dysgu sut i gyfri yn gywir Gymraeg!

Rhifau

GWRYWAIDD/MASCULINE

BENYWAIDD/FEMININE



Un

Dau

Tri

Pedwar

Un

Dwy


Tair

Pedair



RHAID DEFNYDDIO RHIFAU BENYWAIDD
GYDAG ENWAU BENYWAIDD.

Beth ydy'r rheolau?



1

un ci

un gath

2

dau gi

dwy gath

3

tri chi

tair cath

4

pedwar ci

pedair cath



Cyfri yn Gymraeg...

un, dau, tri, pedwar, pump, chwech....

Gydag enwau gwrywaidd dilynwch y patrwm hwn:

un	>	dim treigl	un cwrs
dau	>	treigl meddal	dau gwrs
tri	>	treigl llaes	tri chwrs
pedwar	>	dim treigl	pedwar cwrs
pum	>	dim treigl	pum cwrs
chwe	>	treigl llaes	chwe chwrs

Gydag enwau benywaidd dilynwch y patrwm hwn:

un	>	treigl meddal	un bennod
dwy	>	treigl meddal	dwy bennod
tair	>	dim treigl	tair pennod
pedair	>	dim treigl	pedair pennod
pum	>	dim treigl	pum pennod
chwe	>	treigl llaes	chwe phennod

Tabl Treiglo	Meddal	Trwynol	Llaes
p	b	mh	ph
t	d	nh	th
c	g	ngh	ch
b	f	m	
d	dd	n	
g	/	ng	
ll	l		
m	f		
rh	r		

Nid yw enwau benywaidd sy'n dechrau ag 'll' a 'rh' yn treiglo ar ôl un, e.e. un llaw un rhestr



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Sut ydyn ni'n gwybod ydy geiriau'n fenywaidd
neu'n wrywaidd?

Mae cliwiau ar gael!!

Edrychwch yn y geiriadur...
eb / nf – benywaidd (mrs)
eg / nm – gwrywaidd (mr)



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Terfyniadau benywaidd

-ach, e.e. cyfrinach

-aeth, e.e. tystiolaeth

-as, e.e. cymwynas

-eb, e.e. taleb

-eg, e.e. dameg

-ell, e.e. llinell

-en, e.e. coeden

-es, e.e. ysgrifenyddes

-fa, e.e. derbynfa

Exceptions: bachgen, gwasanaeth, hiraeth, pennaeth ...

Terfyniadau gwrywaidd

- adur**, e.e. cyfrifiadur
- deb**, e.e. undeb
- dod**, e.e. undod
- der**, e.e. dewrder
- had**, e.e. boddhad
- iad**, e.e. dymuniad
- iant**, e.e. llwyddiant
- rwydd**, e.e. euogrwydd
- yn**, e.e. plentyn

Cofiwch! Rhaid defnyddio ffurf unigol yr enw

Dau gi

~~Dau gwn~~



GEIRFA'R DOSBARTH

Darllenwch y geiriau gyda'ch partner.



Eisiau her?

Rhowch y gair mewn
brawddeg ...

Defnyddiwch eiriadur (dictionary). Ydyn nhw'n




neu'n




?

Gyda dis, chwarewch gêm – a dewiswch garden – rhowch y rhif o flaen yr enw




Un ysgol

Gwrywaidd / Benywaidd??



Geirfa Ddefnyddiol: Adnabod Cenedl Enwau

adroddiad	amser <u>len</u>	amser	bord	arbrawf
wythnos	cadair	bwrdd	tudalen	brawddeg
camgymeriad	cloch	cinio	cofrestr	clawr
ysgol	cwestiwn	desg	cyfrifiadur	dogfen
tasg	ffeil	disgybl	fffenest	diwrnod
ffilm	dosbarth	pâr	gair	plentyn
grŵp	gwera	taflen	gwlad	prawf



Pwy sy'n gwybod...?

3 girls

2 boys

4 desks

4 cupboards

3 books

How many pencils are
there?

Pwy sy'n gwybod...?

3 pupils

4 children

2 computers

1 lesson

3 weeks

6 pages

Cyfieithwch y brawddegau defnyddiol hyn ...

1. John, put two books in the drawer please.
2. Boys, where are the chairs? There were 2 chairs there.
3. Children, you must ask 3 questions.
4. There were 6 computers in the cupboard yesterday.
5. 10 children want dinner today.
6. There are 2 laptops here. Who wants to work here?
7. I work in 3 schools, with 5 children.
8. There are 3 pages in the book.
9. Jack will you read one page please?
10. Yesterday, there were 5 pupils in my class.